**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CYNGOR**
Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 16 Rhagfyr 2020 am 5.00 pm

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cyngor Aelodau oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd S Powderhill (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd M Adams | Y Cynghorydd R Bevan |
| Y Cynghorydd H Boggis | Y Cynghorydd J Bonetto |
| Y Cynghorydd S Bradwick | Y Cynghorydd J Brencher |
| Y Cynghorydd A Calvert | Y Cynghorydd G Caple |
| Y Cynghorydd A Chapman | Y Cynghorydd A Cox |
| Y Cynghorydd A Crimmings | Y Cynghorydd J Cullwick |
| Y Cynghorydd G Davies | Y Cynghorydd L De Vet |
| Y Cynghorydd M Diamond | Y Cynghorydd J Edwards |
| Y Cynghorydd J Elliott | Y Cynghorydd S Evans |
| Y Cynghorydd M Forey | Y Cynghorydd A Fox |
| Y Cynghorydd H Fychan | Y Cynghorydd E George |
| Y Cynghorydd D Grehan | Y Cynghorydd M Griffiths |
| Y Cynghorydd G Holmes | Y Cynghorydd G Hopkins |
| Y Cynghorydd P Howe | Y Cynghorydd G Hughes |
| Y Cynghorydd J James | Y Cynghorydd P Jarman |
| Y Cynghorydd G Jones | Y Cynghorydd L Jones |
| Y Cynghorydd W Jones | Y Cynghorydd R Lewis |
| Y Cynghorydd W Lewis | Y Cynghorydd C Leyshon |
| Y Cynghorydd A Morgan | Y Cynghorydd S Morgans |
| Y Cynghorydd M Norris | Y Cynghorydd Owen-Jones |
| Y Cynghorydd M Powell | Y Cynghorydd S Powell |
| Y Cynghorydd S. Rees-Owen | Y Cynghorydd S Rees |
| Y Cynghorydd A Roberts | Y Cynghorydd J Rosser |
| Y Cynghorydd G Stacey | Y Cynghorydd E Stephens |
| Y Cynghorydd G Thomas | Y Cynghorydd W Treeby |
| Y Cynghorydd L Walker | Y Cynghorydd M Weaver |
| Y Cynghorydd M Webber | Y Cynghorydd E Webster |
| Y Cynghorydd D Williams | Y Cynghorydd J Williams |
| Y Cynghorydd T Williams | Y Cynghorydd R Yeo |

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen

Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

**67 Ymddiheuriadau**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y fwrdeistref Sirol S Belzak, J R Davies, A Davies-Jones, Sera Evans, M Fidler Jones, E Griffiths, J harries, L Hooper, K Jones, K Morgan, S Pickering, M Tegg, R K Turner, G Williams a C Willis.

**68 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

**Eitem 2 ar yr Agenda - BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG**

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Caple – "Mae fy mab yn feddyg ac yn gweithio ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg"
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Caple – "Rwy'n aelod o'r Cyngor Iechyd Cymuned"
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Evans – "Rwy'n gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg"
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Forey – "Rwy'n gyn-gynrychiolydd Aelod Etholedig ar y Bwrdd Iechyd"
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman – "Rwy'n gyn-aelod o Fwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf"
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Yeo – "Mae fy ngwraig yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn Ysbyty'r Tywysog Siarl"
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Lewis - "Mae gen i berthynas agos sy'n gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg"
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G R Davies - "Roeddwn i'n gontractwr i'r Bwrdd Iechyd hyd at 2 flynedd yn ôl. Rwyf bellach wedi ymddeol "
- Cynghorydd  Fwrdeistref Sirol S Morgans "Mae fy merch yn nyrs yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg"
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Jones – "Rwy'n aelod o'r Cyngor Iechyd Cymuned"
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Powell - "Mae fy nhad yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ar ôl dal y Coronafeirws"

**Eitem 8 ar yr Agenda - ADRODDIAD BLYNYDDOL CRONFA DEDDF EGLWYS CYMRU 2019/20**

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Bevan - "Fi yw'r Aelod o'r Cabinet sy'n gyfrifol am y Cynllun Grantiau Deddf yr Eglwysi"

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings – "Rydw i'n aelod o Bwyllgor Nos Galan, sydd wedi gwneud cais am gyllid o'r blaen."
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings – "Rwy'n Ymddiriedolwr i Gyfeillion Parc Aberdâr."
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis - "Rydw i'n Is-lywydd ar Gôr Meibion Abercynon."
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Norris - "Rydw i ar fwrdd grŵp cymunedol sydd wedi derbyn arian o Ddeddf yr Eglwys".
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. R. Davies - "Rydw i'n ysgrifennydd ar Eglwys Blaen-cwm, sydd wedi derbyn arian yn y gorffennol, ac yn aelod o Glwb Tennis Rhondda."
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Edwards - "Yn rhinwedd fy swydd, rwy'n cyfeirio/cefnogi grwpiau cymunedol y 3ydd Sector i dderbyn y cyllid."
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Powell - "Rwy'n ymddiriedolwr ar Neuadd y Dref, Llantrisant"
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol E Stephens - "Rwy'n gweithio i'r Adran Gwaith a Phensiynau "
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Rees – "Rwy'n Ymddiriedolwr i Gyfeillion Parc Aberdâr."
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Jones - "Rwy'n ymddiriedolwr i Gyfeillion Parc Aberdâr, Aberdâr" ac "Rwy'n Gadeirydd ar Lyfrgell a Sefydliad Trecynon sydd ill dau wedi derbyn cyllid gan Ddeddf yr Eglwys"

**69 BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG**

Diolchodd Cadeirydd Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg, Mr Marcus Longley i Gyngor Rhondda Cynon Taf am ei gefnogaeth a'i waith partneriaeth yn ystod y cyfnod anodd a heriol yma. Amlinellodd y pynciau cyffredinol a fyddai'n cael eu cyflwyno yn y cyfarfod gyda mewnbwn gan Mr Paul Mears (Prif Weithredwr), Nick Lyons (Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Meddygol) Alan Lawrie (Prif Swyddog Gweithredu) a Greg Dix (Cyfarwyddwr Nyrsio).

Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb o'r hyn sydd wedi digwydd dros y 12 mis diwethaf, megis cyhoeddi Adolygiad ar y Cyd ar Lywodraethu Ansawdd (Tachwedd 2019), a oedd yn nodi agenda sylweddol a'r ymateb i Ymyrraeth wedi'i Dargedu (Ansawdd a Llywodraethu) a Mesurau Arbennig (Gwasanaethau Mamolaeth). Dywedodd fod y model gweithredu newydd wedi ailwampio'r sefydliad cyfan a'r ffordd y mae'n cael ei reoli, ac mae hyn yn cynnwys datganoli cyfrifoldeb sylweddol i'r tair ardal, sy'n sicrhau bod y bwrdd

iechyd yn gweithredu mew modd cydlynol. Canmolodd y Cadeirydd staff y bwrdd iechyd am eu hymateb anhygoel i Covid-19 a'r heriau a ddaeth yn ei sgil. I gloi, cyflwynodd y Cadeirydd Mr Paul Mears, a benodwyd yn Brif Weithredwr newydd ym mis Medi 2020. Gyda'i gydweithwyr, rhoddodd ddiweddariad trwy gymorth cyflwyniad Power Point, o dan y penawdau allweddol canlynol: -

- Penawdau Allweddol - Edrych ymlaen at y 12 mis nesaf
- Covid-19
- Uchelgais Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg
- Cynlluniau Integredig y Gaeaf
- Gofal Sylfaenol
- Gwasanaethau Mamolaeth - Goruchwylio
- Y Camau Nesaf
- Diweddariad am yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg
- Symud ymlaen

Yn dilyn y cyflwyniad, nododd Arweinydd, Cynghorydd t Fwrdeistref Sirol A Morgan y bu diweddariadau rheolaidd gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg i'r Cyngor Llawn - yn fwyaf diweddar gan Mr Mick Giannasi, Cadeirydd y Panel Goruchwylio Gwasanaethau Mamolaeth Annibynnol, a oedd wedi cyflwyno newyddion cadarnhaol am rai argymhellion i'w gweithredu.

Rhoddwyd cyfle i Arweinwyr y Grwpiau ofyn cwestiynau i gynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd: -

**Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman (Grŵp Plaid Cymru)**

Diolchodd y Cynghorydd Jarman i'r holl staff iechyd yn yr ysbytai sy'n gofalu am gleifion sâl iawn ar hyn o bryd ac ychwanegodd ei bod yn falch o ddarllen neges Twitter gan Mr Mears y diwrnod hwnnw yn cydnabod pwysigrwydd bod yn onest â chleifion a theuluoedd a rhoi gwybodaeth iddynt. Trafododd y Cynghorydd Jarman brofiad unigolyn a fu farw ar 5 Rhagfyr 2020 ar ôl dal Covid 19 yn yr ysbyty, a hynny ar ôl derbyn triniaeth ganser gan Gwm Taf Morgannwg yn wreiddiol. Nododd y Cynghorydd Jarman fod Aneurin Bevan wedi ymddiheuro yn ddiweddar i deulu ar ôl i berthynas ddal Covid yn yr ysbyty, a gofynnodd a fyddai Cwm Taf yn gwneud yr un peth ac yn gwella'r trefniadau cyfathrebu i sicrhau nad yw cleifion sy'n cael triniaeth am gyflyrau heblaw Covid yn cael eu colli.

Croesawodd y Cynghorydd Jarman y cynnydd ym maes Gwasanaethau Mamolaeth a chyhoeddi'r adroddiad ym mis Ionawr 2021. I gloi, mynegodd y Cynghorydd Jarman bryder gan obeithio na fyddai penderfyniad y Llywodraeth i

ganiatáu i bobl ymgynnull adeg y Nadolig yn rhoi mwy fyth o straen ar y GIG ym mis Ionawr. Pwysleisiodd y Cynghorydd Jarman y byddai'n cefnogi pob ymdrech a wneir gan Lywodraeth Cymru i fuddsoddi yn y Gwasanaeth Iechyd.

**Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Powell (Grŵp Annibynnol RhCT)**

Diolchodd y Cynghorydd Powell hefyd i staff y GIG ledled y wlad am eu gwaith ar hyn o bryd.

Gofynnodd y Cynghorydd Powell y cwestiynau canlynol: -

Faint o deuluoedd a gafodd eu heffeithio gan y problemau o ran y ddarpariaeth famolaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, gan na ddarparwyd y gwasanaethau priodol iddynt?

Gofynnodd y Cynghorydd Powell, yn dilyn y newyddion y byddai'r Gwasanaeth Damweiniau ac Achosion Brys yn aros yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, a oedd unrhyw effaith barhaol yn sgil Cynllun Gofodol Cymru a gychwynnwyd yn 2004? Dyma'r cynllun cyntaf i awgrymu bod Gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys a Mamolaeth yn cael eu symud i Ysbyty Tywysoges Cymru ?

A fydd Ysbyty Dewi Sant yn agor fel Uned Mân Anafiadau yn seiliedig ar fodel y ddwy uned bresennol?

Faint o gleifion a symudwyd o ysbytai Cwm Taf Morgannwg i gartrefi gofal? Nododd yr ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth fod 309 o unigolion wedi cael eu symud i gartrefi gofal, ond dim ond 104 a brofwyd ar gyfer Covid-19 cyn ei rhyddhau, gyda 24 o achosion positif, sy'n golygu bod un o bob 9 o'r cleifion hynny wedi cael prawf Coronafeirws Positif. A yw'r arfer hwnnw'n parhau?

Yn ogystal â hynny, trafododd y Cynghorydd Powell ei hanes personol a'i brofiad ei hun, pan gafodd ei dad ei dderbyn i Ward Seren yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, ac fe ddaliodd y Coronafeirws yn Ward Seren yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Gofynnodd a oes gan yr ysbyty bolisi diwedd oes?

**Y Cynghorydd J James (Grŵp Ceidwadol)**

Estynnodd y Cynghorydd James ei ddymuniadau gorau i'r Cynghorydd Powell ar ôl clywed am salwch aelod o'i deulu.

Gofynnodd y Cynghorydd James y cwestiynau canlynol: -

Pryder gydag effaith hirdymor Covid yn enwedig gyda thrigolion yn oedi cyn ceisio sylw meddygol ar gyfer salwch nad yw'n gysylltiedig â Covid.

Gofynnodd y Cynghorydd James pa mor llwyddiannus fu'r gwasanaeth 111 newydd?

O ran y gwaith ehangu sydd wedi'i gynllunio yn Nhonysguboriau a Llanharan, sut mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu â gweithdrefnau Cynllunio'r Cyngor?

Sut bydd y Fwrdeistref Sirol yn hwyluso cyflwyno'r brechlyn o ran storio a gweinyddu?

Ymatebodd Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg i nifer o

ymholiadau a godwyd gan Arweinwyr y Grwpiau, megis cyfathrebu â chleifion a theuluoedd, sy'n fater hollbwysig. Esboniodd Mr Mears ei bod hi'n fwy hanfodol nag erioed i'r Bwrdd roi gwybodaeth i breswylwyr a chleifion, ac ymddiheurodd am y profiad a godwyd gan y Cynghorydd Jarman yn gynharach. Dywedodd Mr Mears ei fod yn awyddus i greu perthynas fwy agored a gonest gyda chleifion a thrigolion, a chael dulliau cyfathrebu rhagweithiol da gyda theuluoedd er mwyn chlywed yn uniongyrchol ganddynt, ac mae hyn yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd wrth edrych i'r dyfodol.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai Ysbyty Dewi Sant yn cael ei ddatblygu i fod yn barc iechyd sydd wedi'i fodelu ar safle Keir Hardy, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys therapyddion lleferydd ac iaith, awdioleg, Gwasanaethau Meddygon Teulu, gwasanaethau cleifion allanol, ac yn cynnig lle i grwpiau cymunedol fel ei fod wrth galon y gymuned.

O ran Cynllun De Cymru, dywedodd y Prif Weithredwr fod gwasanaethau wedi symud ymlaen ers i'r model hwnnw gael ei ddatblygu flynyddoedd yn ôl a bod gwasanaethau iechyd a chymunedau wedi newid. Ychwanegodd y bydd staff yn parhau i gydweithio â'u cydweithwyr yn Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro gan fod rhai gwasanaethau yn dal i ddibynnu ar y bartneriaeth.

Roedd y Cyfarwyddwr Nyrsio, Mr Greg Dix, yn siomedig o glywed am brofiad y Cynghorydd Powell mewn perthynas â Ward Seren a chadarnhaodd fod y polisi ymweld diwedd oes yn berthnasol i Ward Seren. Ymatebodd Mr Dix hefyd i'r ymholiad ynghylch y categori marw-enedigaethau a chategorïau newydd-anedig, a nododd fod y 25 adolygiad clinigol cyntaf yn cynnwys derbyn mamau i ofal dwys, sydd wedi cael eu hadrodd yn eang ers hynny. Ychwanegodd fod y categorïau nesaf yn dal i gael eu hadolygu gan yr adolygwyr annibynnol. Unwaith y bydd y camau gweithredu mewn perthynas â darparu gofal wedi'u llunio a'u cyhoeddi, byddan nhw'n cael eu cyhoeddi.

Ymatebodd y Prif Weithredwr, Mr Mears, i gwestiynau'r Cynghorydd James ynghylch effaith covid ar wasanaethau dewisol ac, wrth wneud hynny, pwysleisiodd ei bod hi'n bwysig i gleifion ddal ati i gysylltu â'u meddygon teulu. Dywedodd fod y Bwrdd Iechyd yn dal i ddarparu llawfeddygaeth ddewisol a diagnosteg ar gyfer canser, a phwysleisiodd bwysigrwydd anfon neges glir at breswylwyr a'r gymuned ynghylch ceisio sylw meddygol er gwaethaf yr heriau cyfredol. Yn yr un modd, nododd fod Cyfarwyddwr Therapïau'r Bwrdd Iechyd yn datblygu gwasanaethau ar gyfer effeithiau tymor hir 'covid hir'.

Cydnabu'r Prif Weithredwr fod y gwasanaeth 111 yn wasanaeth cymharol newydd ond pwysleisiodd ei bod hi'n bwysig i breswylwyr allu troi at y dewis yma yn lle'r gwasanaeth damweiniau ac achosion brys.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Mr Alan Lawrie, hefyd i'r ymholiad ynglŷn â'r Gwasanaeth 111 newydd, gan ddweud wrth yr Aelodau bod llawer o waith wedi'i fuddsoddi yn y system ond byddai'n codi'r amseroedd ymateb yn uniongyrchol gyda'r sefydliad sy'n arwain ar y fenter. Cytunodd ei bod hi'n bwysig i'r Bwrdd Iechyd ymgysylltu â'r broses Gynllunio ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio ar y cyd â chydweithwyr Cynllunio yn y Cyngor yn ddiweddar i edrych ar le mae'r datblygiadau tai wedi'u lleoli yn Llanharan, Tonysguboriau ac i mewn i ardal Pontypridd. Bydd y cynnydd o amgylch y gwaith penodol hwnnw'n cael ei adrodd yn ôl mewn ychydig fisoedd.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Bwrdd Iechyd am fod yn bresennol a rhagwelodd y

byddai gwahoddiad pellach yn cael ei estyn i'r Bwrdd ymhen ychydig fisoedd. Anogodd yr Aelodau i anfon unrhyw gwestiynau heb eu gofyn yn uniongyrchol i'r Bwrdd Iechyd.

**70 Cyhoeddiadau**

- Dywedodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Maureen Webber wrth yr Aelodau fod gwahoddiad eisoes wedi'i estyn i Rwydwaith Lab UBI i gyfarfod o'r Cyngor Llawn yn y dyfodol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd.

- Manteisiodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L Walker ar y cyfle i longyfarch Mr David Jenkins, Pennaeth Ysgol Tŷ Coch am dderbyn gwobr Pennaeth y Flwyddyn. Dywedodd y Cynghorydd Walker hefyd fod Ysgol Tŷ Coch wedi'i chyflwyno ar gyfer Gwobr y 'Times Education Supplement' am yr ail flwyddyn yn olynol a manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i Mr Jenkins, y staff a'r ysgol am eu holl gyflawniadau gwych.

- Talodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman deyrnged i waith a chyflawniadau Mr D Church, Ysgol Gyfun Aberpennar a enillodd wobr fawreddog 'Gwobr y Disgyblion am yr Athro Gorau'. Soniodd y Cynghorydd Jarman am ba mor ysbrydoledig yw Mr Church ar gyfer disgyblion y gorffennol a'r presennol.

- Manteisiodd y Cynghorydd Jarman ar y cyfle hefyd i longyfarch cyflawniad Lily Maund, disgybl blwyddyn 5 o Ysgol Gynradd Caegarw ar ôl iddi hi ennill y gystadleuaeth bosteri i hyrwyddo'r angen i barhau i gadw at reoliadau Covid 19. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r ymgyrch bosteri yn cael ei defnyddio ledled RhCT i helpu i gadw pobl yn ddiogel a diolchodd yr Aelod i Lily am ei meddylgarwch ac ychwanegodd y dylai pawb ddilyn ei chyngor.

- Tynnodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Rosser sylw hefyd at lwyddiannau Mr D Jenkins a Mr D Church yng Ngwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru. Soniodd yr Aelod am y flwyddyn heriol i bob cymuned ysgol, gan ychwanegu ei bod hi'n fwy pwysig nag erioed i benaethiaid gael eu cydnabod. Llongyfarchodd yr unigolion ar eu gwobrau.

- Soniodd y Cynghorydd W Jones am ailagor Pont St Alban, Tynewydd, gan nodi bod y bont yn achubiaeth i lawer o drigolion. Diolchodd yr Aelod i'r Cyngor am y buddsoddiad ariannol yma. Gwnaeth sylwadau hefyd am y contractwyr lleol a lwyddodd i orffen y prosiect mewn pryd, hyd yn oed yn ystod pandemig Covid. Gorffennodd yr Aelod ei sylwadau trwy dalu teyrnged i ganmol ymgysylltiad y cyhoedd yn ystod yr ymgynghoriad, a'r agoriad cymunedol a gynhaliwyd - a oedd yn cydymffurfio â chyfyngiadau Covid.

- Dathlodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Davies ailagor Pont St Alban

yn Nhynewydd ar ôl y llifogydd diweddar a 9 mis o Covid. Canmolodd y contractwr Alan Griffiths am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r gymuned drwy gydol y prosiect ac am gadw at y dyddiad cau, er gwaethaf Covid. Diolchodd y Cynghorydd Davies i'r Cyngor am y buddsoddiad ariannol o £2 miliwn, a diolchodd i'r gymuned a'r contractwr am brosiect bendigedig.

**71 Council Procedure Rule 15.1**

Cynigiodd y Dirprwy Arweinydd atal Rheol Gweithdrefn 15.1 y Cyngor, sy'n nodi y bydd mater yn cael ei benderfynu os bydd mwyafrif ymhlith yr Aelodau sy'n pleidleisio ac sy'n bresennol yn yr ystafell adeg y bleidlais - a hynny fel bod modd cynnal y cyfarfod ar-lein mewn modd didrafferth.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** atal Rheol Gweithdrefnu 15.1 y Cyngor

**72 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2020 yn rhai cywir.

**73 Cwestiynau gan yr Aelodau**

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Hopkins:**

“A wnewch chi ddatganiad ar sut y cefnogodd y Cyngor Daliadau Uniongyrchol ar gyfer oedolion anabl a'u cynhalwyr yn ystod y Pandemig?"

“Ymatebodd y Cynghorydd Hopkins trwy nodi bod Taliadau Uniongyrchol yn rhoi cyfle i breswylwyr gael rhagor o ddewis ac annibyniaeth o ran eu hanghenion gofal a chymorth eu hunain, a rôl y Cyngor yw helpu i gefnogi pobl pe bydden nhw'n dymuno dewis yr opsiwn hwnnw. Mae'r Gwasanaethau i Oedolion wedi parhau i weithio gyda'i gleientiaid i asesu eu hanghenion ac i weld a yw Taliadau Uniongyrchol yn parhau i ddiwallu eu hanghenion. Mae galwadau lles a chymorth wedi cael eu cynnal gan DEWIS, y Cyngor a'r cynorthwywyr personol i liniaru risgiau, yn enwedig i'r rhai sydd wedi profi newid yn eu gwasanaethau yn ystod y Pandemig, ac wedi gweithio gydag unigolion i sicrhau bod Taliadau Uniongyrchol yn cael eu defnyddio mewn ffordd addas i flaenoriaethu tasgau fel siopa a chasglu presgripsiynau. Mae'r Cyngor hefyd wedi gweithio gyda DEWIS i roi cyfarpar diogelu personol i gynorthwywyr yn eu rôl fel gweithwyr hanfodol”.

**Cwestiwn Ategol gan y Cynghorydd P Jarman**:

“Siaradodd y Cynghorydd Jarman ar ran preswylydd sy'n cyflogi cynorthwyydd personol o dan y cynllun Taliadau Uniongyrchol i ofalu am ei merch, sydd ag anabledd difrifol. Dywedodd nad oedd y gefnogaeth a gafodd i gael mynediad at gyfarpar diogelu personol a phrofi ar gyfer y cynorthwyydd personol y mae'n ei gyflogi, yn ystod y cyfnod cloi, yn ddigon cydymdeimladol na chydlynol, a'i fod yn dameidiog ac yn ddiffygiol iawn. Roedd hi eisiau diolch i DEWIS a staff y Cyngor am eu cyngor a'u cymorth o fewn y fframwaith y bu'n rhaid iddyn nhw weithio

ynddo.

Gofynnodd y Cynghorydd Jarman am gadarnhad bod y Cyngor, ers y toriad tân diweddaraf, wedi gallu perswadio Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i ymestyn y profion arferol sydd ar gael i'r cynorthwywyr personol hynny sy'n gweithio mewn cartrefi gofal, fel eu bod hefyd ar gael i'r staff hynny sy'n darparu'r gofal mwyaf personol yng nghartrefi pobl eu hunain o dan y cynllun Taliad Uniongyrchol. ”

**Ymateb gan y Cynghorydd G.Hopkins:**

“Mynegodd y Cynghorydd Hopkins ei bryder ynglŷn â’r achos a gofynnodd i’r Cynghorydd Jarman anfon y manylion ato fel y gallai ddarparu ymateb sy'n ystyried y materion ehangach”

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Morgans i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:**

“A oes modd i'r Aelod o'r Cabinet ddarparu diweddariad ar y datblygiadau i gynyddu capasiti addysg cyfrwng Cymraeg?”

“Dywedodd y Cynghorydd Rosser fod y Cyngor, trwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, yn parhau i gefnogi uchelgais LlC o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg ledled Cymru erbyn 2050. Mae gwella cyfleusterau mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg trwy fuddsoddiad gan y Cyngor a chyllid grant LlC yn rhan allweddol o hyn, gyda bron i £4 miliwn o gyllid gan Grant Cyfalaf Canolig Cymru LlC wedi arwain at ofal plant newydd neu well, neu Gylchoedd Meithrin mewn ystod o ysgolion, gan gynnwys YGG Ynyswen, YGG Evan James ac YGG Aberdâr. Bydd hyn yn helpu i gryfhau amlygiad cynnar i ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg a gwaith pontio i'r lleoliadau ysgol hynny. Ategwyd y camau yma gan fuddsoddiad sylweddol mewn cyfleusterau ysgolion trwy Fandiau A a B o'r Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif e.e. buddsoddiad o £1.5m yn YGG Tonyrefail ac YGG Llwyncelyn i gynyddu capasiti a gwella cyfleusterau yn y ddwy ysgol. Sicrhawyd £4.5 miliwn o ddyraniad Band B y rhaglen i adeiladu estyniad a darpariaeth gofal plant newydd yn YGG Aberdâr. Ymgynghorwyd ar estyniad newydd, werth £12 miliwn yn YG Rhydywaun, gyda chynlluniau wedi'u cyflwyno i'w cymeradwyo erbyn diwedd y flwyddyn.

Dywedodd y Cynghorydd Rosser fod Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn dod yn ysgol cyfrwng Cymraeg o fis Medi 2021 ac mae cynlluniau'n cael eu cwblhau ar gyfer estyniad yn Ysgol Gynradd Dolau gyda Datblygwr Tai, a fydd yn creu capasiti ychwanegol ar gyfer 500 o ddisgyblion ynghyd â Meithrinfa. I gloi, cadarnhaodd y Cynghorydd Rosser fod cynlluniau wedi’u cyhoeddi i ymgynghori ar ysgol newydd yn YGG Llyn y Forwyn. ”

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd S Morgans:**

“Croesawodd y Cynghorydd Morgans y cyhoeddiad ar gyfer yr ysgol newydd a gofynnodd am ddiweddariad ar y prosesau a’r camau nesaf ar gyfer y cynlluniau"

**Ymateb gan y Cynghorydd J Rosser:**

“Dywedodd y Cynghorydd Rosser fod swyddogion wrthi’n asesu safleoedd i

gychwyn y broses ymgynghori yn gynnar yn y flwyddyn newydd, ac yn cydnabod nad yw'r cyfleusterau presennol yn addas at y diben mwyach. Bydd y cynigion yr ymgynghorir â hwy yn sicrhau bod gan ddisgyblion fynediad i amgylchedd addysg modern, o'r radd flaenaf. Ychwanegodd y Cynghorydd Rosser y gobeithir creu capasiti cyfrwng Cymraeg ychwanegol a chyfleusterau cymunedol yn ardal Cwm Rhondda Fach a bydd yr ymgynghoriad yn rhoi cyfle i bawb wneud sylwadau ac yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau yn y cabinet."

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol E. George i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:**

"A oes modd i'r Aelod o'r Cabinet amlinellu pa gefnogaeth sydd ar waith i blant sy'n derbyn Prydau Ysgol Am Ddim?

**Ymateb gan y Cynghorydd J Rosser:**

"Dywedodd y Cynghorydd Rosser fod Llywodraeth Lafur Cymru wedi cadarnhau bod £11 miliwn ar gael i sicrhau y bydd darpariaeth PYDd ar gael ar gyfer pob gwyliau ysgol hyd, at a chan gynnwys, gwyliau'r Pasg yn 2021. Bydd cyllid hefyd ar gael i'r holl ddisgyblion PYDd sy'n hunanynysu o 9 Tachwedd. Gwneir taliadau bacs yn ôl-weithredol ac yn wythnosol i'r holl ddisgyblion hynny sy'n gwarchod neu'n hunan-ynysu ac sy'n cael eu gwneud yn hysbys i'r Cyngor trwy eu hysgol. Bydd y trefniadau hyn ar waith tan ddydd Gwener, 18 Rhagfyr a byddan nhw'n cael eu hadolygu wedi hynny. Taliad am wyliau'r Nadolig yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Lafur Cymru ar 21 Rhagfyr 2020 neu o gwmpas y dyddiad hwnnw. Bydd disgyblion yn cael eu nodi o'u codau presenoldeb, a fydd yn cael eu gwirio'n rheolaidd."

**Ni ofynnwyd cwestiwn atodol i'r Aelod o'r Cabinet**.

**Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.Forey i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan:**

"Sut mae'r Cyngor yn bwriadu cefnogi adfer o bandemig Covid-19 yn y dyfodol?"

**Ymateb gan y Cynghorydd A. Morgan:**

"Dywedodd yr Arweinydd fod llu o grantiau Covid wedi bod ar gael gan Lywodraeth Cymru, y mae'r mwyafrif ohonynt wedi'u darparu drwy'r awdurdodau lleol. Mae'r Cyngor wedi cefnogi oddeutu 6,000 o fusnesau gyda £60 miliwn o gymorth ariannol a chyngor, ac mae'r Rhaglen Cymorth Menter, Grant Cynnal Canol y Dref a grantiau gwella eiddo wedi'u cynnwys yn hyn. Mae rhai busnesau wedi eu defnyddio fel potiau cyllid cyfatebol i wneud cais am grantiau eraill. Ychwanegodd yr Arweinydd fod y cynlluniau wedi dyfarnu dros £300,000 o gymorth busnes, sydd wedi'i gyfateb trwy'r sector preifat, felly mae cyfanswm o £600,000 o fuddsoddiad ar gael. Mae'r Cyngor ar fin gwneud taliadau Ardreth Annomestig Genedlaethol pellach i fusnesau, megis y rhai yn y sector Lletygarwch, ac mae wedi'i ymestyn i gadwyni cyflenwi sydd hefyd wedi'u heffeithio.

Mae'r Gronfa Gwydnwch Economaidd ar gael trwy Busnes Cymru a bydd ceisiadau'n agor ar ôl y Nadolig. Bydd y Cyngor yn gwneud pob ymdrech i annog busnesau lleol i ymgeisio. Amcangyfrifir bod y pecyn cyffredinol ar gyfer y rownd gyfredol o gyfyngiadau werth oddeutu £340 miliwn i gefnogi busnesau agored i niwed

Yn lleol, mae swyddogion y Cyngor wedi bod allan i gynghori busnesau ynghylch grantiau neu becynnau ariannol eraill, ac wedi lleihau neu gael gwared ar y taliadau parcio ceir ym Mhontypridd ac Aberdâr, gan fod preswylwyr yn defnyddio canol y trefi i siopa. ”

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd M Forey**:

“Gofynnodd y Cynghorydd Forey pa effaith fyddai cyfnod cloi pellach yn ei chael ar yr economi yn ogystal â'r risg ychwanegol o ran Brexit?”

**Ymateb gan y Cynghorydd A. Morgan:**

“Yn rhinwedd ei swydd fel Arweinydd y Cyngor ac arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, dywedodd y Cynghorydd Morgan y byddai cyfnod clo pellach a Brexit "heb fargen" yn arwain at waith pellach gan ganolfan argyfyngau LlC o 28 Rhagfyr ymlaen, ac mae Operation Yellow Hammer wrthi'n edrych ar y cyflenwad bwyd er mwyn sicrhau y bydd digon o fwyad ar gyfer cartrefi gofal ac ysgolion yr awdurdodai lleol os bydd problemau'n codi. Dywedodd yr Arweinydd iddo gyfarfod â Busnes Cymru yn ddiweddar i drafod Brexit 'heb fargen' gan ei bod hi'n anodd cynllunio ar gyfer unrhyw beth heblaw am hynny. Dywedodd fod carfanau Cyllid y Cyngor yn brysur yn dyrannu grantiau busnes a sicrhau bod y cyngor cywir ar gael, a bod trafodaethau yn parhau ynghylch pecynnau cymorth pellach.

I gloi, diolchodd yr Arweinydd i'r garfan Adfywio sy'n cysylltu â chymaint o fusnesau â phosibl i'w diweddaru ynghylch y grantiau sydd ar gael iddyn nhw, a hynny gan ddefnyddio eu cysylltiadau trwy fforymau busnes, grwpiau gwirfoddol, a grwpiau canol tref, i annog ceisiadau cyn y dyddiadau cau. "

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Thomas i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol, D. R. Bevan:**

“A oes modd i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Ddatblygiad ZipWorld o ran cynnydd ac a yw dyddiad agor wedi'i gynllunio?”

**Ymateb gan y Cynghorydd Bevan**

“Dywedodd y Cynghorydd Bevan fod gwaith ar y gweill i ddarparu atyniad Zipworld, a chafwyd sylw sylweddol yn y cyfryngau cymdeithasol. Enw'r atyniad fydd 'Phoenix' a dyma fydd y llinell zip gyflymaf yn y byd. Dywedodd y Cynghorydd Bevan wrth y Cyngor fod nifer o waith arall ar y gweill i adnewyddu rhai o hen adeiladau'r pwll glo i'w defnyddio fel derbynfa a chyfleusterau arlwyo i ymwelwyr. Mae cais cynllunio ar y gweill ar gyfer atyniad 'coaster cart', y cyntaf o'i fath yn Ewrop. Mae disgwyl i'r atyniad agor ar ddiwedd Mawrth 2021, yn amodol ar gyfyngiadau Covid ”

**Ni ofynnwyd cwestiwn atodol i'r Aelod o'r Cabinet.**

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol Sheryl Evans i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:**

“A oes modd i'r Aelod o'r Cabinet ddarparu diweddariad ar y ffigurau ailgylchu

diweddaraf ar gyfer RhCT?”

“Dywedodd y Cynghorydd Crimmings fod y llifogydd a phandemig Covid wedi effeithio ar ffigurau ailgylchu'r Cyngor. Difrodwyd deunydd yn y llifogydd nad oedd yn bosibl ei ailgylchu, a chaewyd y Canolfannau Ailgylchu yn y Gymuned yn llwyr ledled y Fwrdeistref yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Gyda rhagor o breswylwyr bellach yn gweithio gartref, nododd y Cynghorydd Crimmings gynnydd yn y gwastraff gweddilliol, ond dywedodd fod ffigurau gwastraff bwyd wedi cynyddu, gyda'r ffigurau yn cyrraedd 70.05% yn yr 2il chwarter, sydd yr un peth â'r ffigurau ar gyfer yr un cyfnod y llynedd, Mae hyn yn golygu bod RhCT mewn sefyllfa dda i gyflawni ei dargedau ar gyfer 2024/25, sef 70%. "

**Ni ofynnwyd cwestiwn atodol i'r Aelod o'r Cabinet.**

**74 Datganiad**

Cyhoeddodd Arweinydd y Cyngor mai hwn fyddai cyfarfod olaf y Cyngor i Mr Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran Gwasanaethau i Blant a Gwasanaethau'r Gymuned, a hynny am ei fod e'n ymddeol o'r Awdurdod Lleol. Talodd yr Arweinydd deyrnged i Mr Isingrini a diolchodd iddo am ei gefnogaeth i staff a'r Uwch Garfan Reoli, gan gydnabod ei waith caled a'r oriau hir yr oedd wedi ymrwymo i'r swydd, yn enwedig trwy gydol y pandemig. Dywedodd y byddai Gio yn weithiwr anodd i'w ddilyn, a dywedodd y byddai Mr Paul Mee yn dechrau yn y Flwyddyn Newydd.

Hefyd rhoddodd yr Arweinydd ddiweddariad mewn perthynas ag atgyweirio a chynlluniau adfer yn dilyn y llifogydd, fel a ganlyn: -

**Gwaith trwsio mewn argyfwng**
26 wedi'u rhestru
6 yn mynd rhagddo
1 ar y safle
19 wedi'u cwblhau

**Cynlluniau Sylweddol i Reoli Perygl Llifogydd**
11 wedi'u nodi
10 yn mynd rhagddo
1 ar y safle

**Cynlluniau Llai i Reoli Perygl Llifogydd (o dan £150,000)**
23 wedi'u nodi
14 yn mynd rhagddo
4 ar y safle
5 wedi'u cwblhau

**Cynlluniau Llai i Reoli Perygl Llifogydd - gwaith paratoi**
8 yn mynd rhagddo

**Cyllid Ffyrdd Cydnerth**
18 cynllun
14 yn mynd rhagddo
2 ar y safle
2 wedi'u cwblhau

Crynhodd yr Arweinydd gyfanswm y ffigurau fel a ganlyn a rhoddodd sicrwydd bod cryn dipyn o waith yn cael ei wneud er gwaethaf y cyfyngiadau sydd ar waith, a hyd yn oed yn ystod unrhyw gyfnod clo yn y dyfodol, bydd contractwyr yn parhau i weithio gyda staff: -

86 o gynlluniau wedi'u nodi
52 yn mynd rhagddo
8 ar y safle
26 wedi'u cwblhau

Diolchodd Arweinydd Grŵp Plaid Cymru i Mr Isingrini hefyd am y cymorth y mae wedi'i roi iddi hi ei hun ac i Grŵp Plaid Cymru, a nododd y Cynghorydd Jarman ei fod yn weithiwr proffesiynol go iawn ac yn swyddog ymarferol iawn.

Diolchodd Mr Gio Isingrini i'r Cyngor am ei ddymuniadau da ac am y cyfle i weithio i'r awdurdod lleol, a chydnabu ei olynydd teilwng, Mr Paul Mee.

**75 Rhaglen Waith Y Cyngor 2019/20**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, ddiweddariad ynghylch Rhaglen Waith y Cyngor a nododd y byddai Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro Cyllideb y Cyngor yn cael ei adrodd i gyfarfod dilynol y Cyngor ym mis Ionawr 2021. Byddai Dadl Flynyddol yr Arweinydd yn cael ei chynnal yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror ac i gloi, tynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth sylw at y ffaith bod sesiwn hyfforddi dros dro ynghylch Sipsiwn, Roma a Theithwyr wedi'i drefnu ar gyfer Aelodau cyn y cyfarfod ym mis Ionawr.

**76 DIWEDDARIAD MEWN PERTHYNAS Â'R CORONAFEIRWS YN RHONDDA CYNON TAF**

Rhoddodd Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned ddiweddariad mewn perthynas â'r Coronafeirws yn Rhondda Cynon Taf trwy gyfrwng cyflwyniad PowerPoint o dan y penawdau canlynol: -

- Cyfraddau achos yn ôl rhanbarth
- Cyfraddau achos fesul Awdurdod Lleol
- Tueddiadau mewn Cyfradd Achosion Cronnus 7 diwrnod fesul pob 100,000 yn RhCT - 15 Medi - 9 Rhagfyr 2020
- Tuedd mewn Cyfraddau Profion Covid Positif Dyddiol yn RhCT
- Map Gwres Covid LSOA
- Map Gwres Covid Ardal Adeiledig
- Gwyliadwriaeth Ardal Leol Covid
- Olrhain Cysylltiadau
- Profi Ardal Gyfan - Cwm Cynon Isaf

Yn dilyn y cyflwyniad, dywedodd yr Arweinydd fod Prif Weinidog Cymru wedi amlinellu y byddai cyfyngiadau pellach ar waith ar 24 Rhagfyr, a'r genedl gyfan yn cael ei rhoi dan gyfyngiadau Haen 4 o ddydd Nadolig ymlaen. Gyda'r sefyllfa'n newid yn gyflym, nododd yr Arweinydd y byddai adolygiad o Wasanaethau'r Cyngor yn cael ei gynnal dros gyfnod y Nadolig i gefnogi gwasanaethau rheng flaen allweddol, fel gwasanaethau ailgylchu a sbwriel, a thrafodaethau gydag AD i sicrhau bod lefelau staffio yn cael eu cryfhau mewn meysydd allweddol fel y rhaglen Brofi ac Olrhain. Cadarnhaodd yr Arweinydd fod dros 300 o staff ar hyn o bryd yn gweithio ar y rhaglen, ac mae modd canfod hyd at 9,000 o gysylltiadau mewn un wythnos ledled ardal Cwm Taf. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu 7 diwrnod yr wythnos a gyda'r nos.

Mae'r cynllun peilot profi torfol a dargedwyd yn wreiddiol yn ardal isaf Cwm Cynon wedi'i ymestyn yn llwyddiannus, gyda chefnogaeth staff y Cyngor, sy'n ymwneud yn bennaf â chydlynu'r profion. Dywedodd yr Arweinydd fod y cynllun profi torfol yn debygol o nodi rhwng 700-800 o achosion positif, a gyda'r rhaglen profi ac olrhain ar waith i ganfod cysylltiadau, roedd y rhaglen yn cael effaith ar nifer yr achosion ac yn fuddiol i'r gymuned.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod trafodaethau dyddiol yn cael eu cynnal rhwng pob un o'r 22 Awdurdod Lleol a Gweinidogion, a dywedodd y bydd mwyafrif helaeth y gwasanaethau nad ydynt yn hanfodol yn cau, bydd lleoliadau cyhoeddus yn cau, bydd toiledau cyhoeddus ym Mhontypridd ac Aberdâr yn aros ar agor a bydd trafnidiaeth gyhoeddus yn gweithredu i gymudwyr. Bydd mwyafrif helaeth gwasanaethau'r cyngor hefyd yn cau ond bydd gwasanaethau rheng flaen fel gofal cymdeithasol, gwasanaethau i blant, prydau ar glud a gwasanaethau ailgylchu yn parhau i fod ar waith. Pwysleisiodd yr Arweinydd ei bod hi'n bwysig i Aelodau drosglwyddo negeseuon allweddol i breswylwyr ynghylch cyfyngu'r cyswllt ag eraill.

I gloi mynegodd yr Arweinydd ei ddiolchgarwch i'r staff, yn enwedig staff ysgolion, sy'n gofalu am blant ysgol gweithwyr allweddol.

**Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman (Grŵp Plaid Cymru)**

Roedd y Cynghorydd Jarman yn dymuno estyn ei diolch i holl staff y cyngor a fu'n darparu'r holl wasanaethau, yn enwedig staff ysgolion, a staff y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd, a sefydlodd y trefniadau profi yn Ysgol Gyfun Aberpennar. O blith 486 o blant a brofwyd, dim ond un disgybl oedd â chanlyniad positif.

Gofynnodd y Cynghorydd Jarman am eglurhad o ran ffynhonnell y negeseuon testun o'r cynllun peilot gan ei bod wedi derbyn un gan Merthyr a oedd yn gamarweiniol.

A oes cydberthynas o ran os bydd canlyniad positif o'r cynllun prawf llif unffordd, a fydd y profion PCR dilynol hefyd yn bositif?

Ymestynnodd y Cynghorydd Jarman gefnogaeth Grŵp Plaid Cymru i'r Arweinydd yn ei benderfyniad i gau'r gwasanaethau nad ydynt yn hanfodol er mwyn cefnogi'r gwasanaethau rheng flaen i gadw preswylwyr a staff yn ddiogel rhag y feirws.

**Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Powell (Grŵp Annibynnol RhCT)**

Cytunodd y Cynghorydd Powell â'r Cynghorydd Jarman, gan gefnogi'r Arweinydd a'i Gabinet yn ei benderfyniadau, megis cau gwasanaethau cyngor nad ydynt yn hanfodol.

Cydnabu'r Cynghorydd Powell waith caled y staff sy'n gweithio ar y cynllun profi torfol a mwyafrif y preswylwyr sy'n cydymffurfio â'r cyfyngiadau. Awgrymodd y Cynghorydd Powell y byddai cyfarwyddiadau ar ochr darn A4 o bapur, sy'n nodi'n glir yr hyn y mae modd i breswylwyr ei wneud o dan y cyfyngiadau cyfredol, yn ddefnyddiol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Powell at y mapiau a ddangoswyd i'r Cyngor yn gynharach a nododd nad ydynt yn dangos darlun realistig o leoliad yr achosion cadarnhaol. Anogodd y Bwrdd Iechyd i gynhyrchu mapiau sy'n dangos y gwir ddarlun.

**Y Cynghorydd J James (Grŵp Ceidwadol)**

Ailadroddodd y Cynghorydd James y diolchiadau i staff y Cyngor am eu gwaith caled o dan amgylchiadau heriol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd James at benderfyniad y Llywodraethau datganoledig i gymryd llwybrau ar wahân, gan holi ai dyma'r rheswm dros y cyfraddau uwch o Covid-19 yng Nghymru. Cwestiynodd beth yw'r rheswm am hyn, ai unigolion nad ydynt yn cadw at y cyfyngiadau yw'r unig broblem, pan mae'n ymddangos bod holl ganlyniadau eraill y Genedl yn gostwng?

Aeth Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned i'r afael â'r cwestiynau a sicrhau'r Cynghorydd Jarman fod y negeseuon testun o Ferthyr yn gyfreithlon ac yn rhan o broses werthuso'r peilot, a chadarnhaodd ei fod wedi gofyn ers hynny eu bod yn adlewyrchu'r lleoliad cywir yn y dyfodol er mwyn osgoi unrhyw ddryswch. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y prawf llif unffordd yn brawf penodol iawn ac yn nodi Covid-19 ond nid yw mor sensitif â'r prawf PCR a dyna pam bod angen ail brawf PCR cadarnhau. Hyd yma ym Merthyr a Chwm Cynon, mae'r rhai sy'n dod am y prawf PCR ar ôl cael prawf llif unffordd positif hefyd yn derbyn prawf PCR positif, a bydd hyn rhan o'r gwerthusiad ac yn cadarnhau pa mor effeithiol yw dull y cynllun peilot.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod angen bod yn ofalus wrth ddehongli'r mapiau, a bydd yr achosion positif hynny yn yr ysbyty yn cael eu cofnodi yn eu man preswylio. Cadarnhaodd fod cynnydd yn nifer yr heintiau a gafwyd yn y gymuned yn cael eu derbyn i'r ysbyty, ond mae'r gwahaniaeth rhwng heintiau a gafwyd yn y gymuned a'r ysbyty yn dod yn llai arwyddocaol. Mae'r niferoedd yn dangos yr achosion o fewn y 7 diwrnod diwethaf a bydd yr heintiau hynny a gafwyd mewn ysbytai yn isel ac yn annhebygol o effeithio ar y safle ar y mapiau.

O ran y cyfraddau heintio uwch ledled Cwm Taf, dywedodd y Cyfarwyddwr fod yr ystod eang o resymau yn cynnwys rhai economaidd-gymdeithasol, oedran, demograffeg, cyflyrau iechyd sylfaenol. serch hynny, y prif reswm dros y gyfradd heintio yw trosglwyddo cymunedol, hynny yw, cyswllt cymdeithasol, yn y gweithle, y cartref ac ym maes lletygarwch.

Eglurodd yr Arweinydd y cyfraddau trosglwyddo mewn ysbytai ledled y fwrdeistref sirol a dywedodd fod ychydig llai na 3.5% o'r holl achosion cofleidiol yn achosion a gafwyd mewn ysbytai. Hefyd rhoddodd eglurhad pellach ar y prawf llif unffordd a phrofion PCR.

**77 Adroddiad Blynyddol Cronfa Deddf Eglwys Cymru 2019/20**

Yn ei adroddiad, ceisiodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol sêl bendith Cynghorwyr ar gyfer Datganiad o Gyfrifon Cronfa Deddf Eglwys Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, 2020; a PHENDERFYNWYD –

1. Nodi Adroddiad Blynyddol Cronfa Ddeddf Eglwys Cymru a'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/2020 (Atodiad 1 yr adroddiad);

2. Cymeradwyo a nodi'r Llythyr o Gynrychiolaeth mewn perthynas â Chronfa Deddf Eglwys Cymru (Atodiad 2 yr adroddiad);

3. Nodi cynnwys adroddiad yr Archwilydd Allanol (Atodiad 3 yr adroddiad).

(D.S. Ar yr adeg yma yn y cyfarfod, cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan y buddiant personol canlynol: “Rwy'n aelod o Bwyllgor Nos Galan a Grŵp Amgylcheddol y Darren-las”)

**78 PENODI CYFARWYDDWR, IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD, A GWASANAETHAU'R GYMUNED**

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol yr Aelodau at ei adroddiad, a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor o benderfyniad y Pwyllgor Penodiadau, ynghylch penodi i unigolyn swydd Cyfarwyddwr, Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau y dylid penodi Mrs. Louise Davies i swydd Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned, o 1 Ionawr 2021 ymlaen.

**79 Rhybuddion o Gynigion**

A) Trafodwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G. Hughes, L. M. Adams, G. Caple, D. R. Bevan, H Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J Brencher, A Calvert, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L De- Vet, J. Edwards, J Elliott, S. Evans, M Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries G. Holmes, G. Hopkins, G. Jones, R. Lewis, W Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S Pickering, S. Powell, S. Powderhill, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, G Stacey, M Tegg, G Thomas, W Treeby, R K Turner, M. Webber, D. Williams, T. Williams, C. J. Willis a R. Yeo:

Ar 1 Mai 2020 torrodd Llywodraeth San Steffan swm y dreth ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol i lawr i 0%, a hynny fel nad oedd talu TAW yn fwrn ar y rheiny a oedd yn prynu Cyfarpar Diogelu Personol er mwyn diogelu gweithwyr ar y rheng flaen rhag y coronafeirws. Serch hynny, y mis diwethaf, cadarnhaodd y Trysorlys y byddai angen i fusnesau a'r cyhoedd ddechrau talu treth werthiant o 20% ar gyfarpar diogelu unwaith eto o fis Tachwedd ymlaen, yn dilyn cyfnod eithrio o 6 mis.

Byddai ailgyflwyno'r dreth lawn o 20% yn cael effaith sylweddol ar lawer o fusnesau'r sector preifat ac ar ddefnyddwyr cyffredin a'r cyhoedd, wrth gwrs, a hynny ar adeg pan mae llawer yn parhau i wynebu trafferthion o ran effeithiau economaidd y pandemig COVID-19, ac yn edrych tuag at gyfnod y Nadolig, sydd eisoes yn gallu bod yn gyfnod o galedi ariannol i deuluoedd ledled y DU. Amcangyfrifir y byddai modd i'r dreth yma gostio hyd at £100 i deuluoedd dros gyfnod o chwe mis.

Mae'r Cyngor yma felly'n galw ar Lywodraeth San Steffan i ymestyn y cyfnod eithrio TAW ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol, er mwyn sicrhau nad yw busnesau'r sector preifat a phreswylwyr yn cael eu cosbi'n ariannol wrth gymryd y camau synhwyrol y mae gofyn iddyn nhw eu cymryd er mwyn lleihau'r perygl o ddal COVID-19 neu'i roi i eraill.

Mae'r Cyngor yma'n gofyn i'r Arweinydd ysgrifennu at Lywodraeth y DU yn gofyn iddynt ymestyn y cyfnod eithrio TAW o ran Cyfarpar Diogelu Personol ar unwaith.

Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

- (**Nodwch:** Roedd yr holl Aelodau Llafur a oedd yn bresennol ar yr adeg yma yn y cyfarfod yn dymuno i'w henwau gael eu cofnodi o blaid y cynnig, sef Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G. Hughes, L. M. Adams, G. Caple, D. R. Bevan, H Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J Brencher, A Calvert, A. Crimmings, A. Davies-Jones, J. Edwards, J Elliott, S. Evans, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, G. Holmes, G. Jones, R. Lewis, W Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S Pickering, S. Powell, S. Rees, J. Rosser, G Stacey, G Thomas, W Treeby, M. Webber, D. Williams, T. Williams a R. Yeo

- Ymatalodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. James rhag pleidleisio ar y mater)

****

B) Trafod y Rhybudd o Gynnig canlynol sydd wedi'i gyflyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref SirolM. Griffiths, T. Williams, L. M. Adams, D. R. Bevan, H Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J Brencher, A Calvert, G. Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L De- Vet, J. Edwards, J Elliott, S. Evans, M Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, J. Harries G. Holmes, G. Hopkins, G. W. Hughes, G. Jones, R. Lewis, W Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen Jones, S Pickering, S. Powell, S. Powderhill, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, G Stacey, M Tegg, G Thomas, W Treeby, R K Turner, M. Webber, D. Williams, C. J. Willis a R. Yeo

Mae effeithiau anghydraddoldeb a thlodi ar gyfleoedd bywyd yn amlochrog ac mae tystiolaeth amlwg o hyn, gydag effaith y pandemig byd-eang nid yn unig yn datgelu'r caledi ariannol y mae teuluoedd ledled y wlad a thu hwnt yn

ei wynebu, ond hefyd yn rhoi rhagor o straen sylweddol ar ein heconomi gan fod nifer helaeth o swyddi wedi'u colli a llawer o fusnesau wedi mynd i'r wal.

Mae'r angen am gynlluniau diogelu wrth-gefn yn gryfach nag erioed, ac nid yw'n syndod gweld y galw cynyddol am gyflwyno cynllun Incwm Sylfaenol Cynhwysol (UBI). Byddai UBI yn golygu bod pawb yn cael swm penodol gan y Llywodraeth i dalu costau sylfaenol, ni waeth a ydyn nhw'n gyfoethog neu'n dlawd, yn gweithio neu'n ddi-waith. Mae'n amlwg nad yw'r cynllun budd-daliadau cyfredol yn gweithio, gyda miliynau'n dioddef caledi gormodol oherwydd problemau cynhenid gyda'r system Credyd Cynhwysol, a byddai gweithredu cynllun budd-daliadau cyffredinol nid yn unig yn lleihau tlodi ac anghydraddoldeb, ond hefyd yn darparu system fwy cadarn o sicrwydd ariannol i'r teuluoedd hynny sy'n profi caledi ariannol.

Mae gwaith Rhwydwaith Lab UBI o ran llunio cynigion ar gyfer cyfnodau prawf wedi bod yn allweddol o ran hyrwyddo'r agenda yma ac, ym mis Hydref eleni, cefnogodd mwyafrif o Aelodau'r Senedd - o nifer o bleidiau gwleidyddol - Gynnig a gyflwynwyd gan Aelod Senedd Cymru, Jack Sargeant, a oedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal cyfnod prawf o'r UBI yng Nghymru ac i lobïo Llywodraeth San Steffan am arian i roi hyn ar waith ledled Cymru. Yn ystod y ddadl, amlygodd Gweinidog Cyllid a Threfnydd Llywodraeth Cymru y gallai cyflwyno cynllun Incwm Sylfaenol Cyfunol yn seiliedig ar y cyflog byw ledled Cymru gostio oddeutu £35 biliwn y flwyddyn - swm sydd ddwywaith maint cyllideb Llywodraeth Cymru. Mae'n amlwg y byddai angen cefnogaeth ariannol sylweddol gan Lywodraeth San Steffan ar gyfer unrhyw gynllun prawf o'r fath yn y dyfodol.

Gan fod rhoi cynllun prawf ar waith y tu allan i gwmpas pwerau statudol yr Awdurdod Lleol, mae'r Cyngor yma felly'n penderfynu y bydd Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru i fynegi diddordeb y Cyngor hwn mewn ffurfio rhan o unrhyw gynllun prawf a gaiff ei sefydlu o ran Incwm Sylfaenol Cynhwysol.

Yn y cyfarfod, cyhoeddodd y Cadeirydd, yn unol â Rheol 10.4.1 o Weithdrefn y Cyngor, fod y diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig wedi'i dderbyn gan Gynghorwyr y Fwrdeistref SirolP Jarman, E Webster, H Fychan, G Davies, A Chapman, S Evans, L Jones, E Stephens, S Rees Owen, M Weaver, J Williams, A Cox, D Grehan, E Griffiths, K Morgan, J Cullwick a J Davies:

Mae effeithiau anghydraddoldeb a thlodi ar gyfleoedd bywyd yn amlochrog ac mae tystiolaeth amlwg o hyn, gydag effaith y pandemig byd-eang nid yn unig yn datgelu'r caledi ariannol y mae teuluoedd ledled y wlad a thu hwnt yn ei wynebu, ond hefyd yn rhoi rhagor o straen sylweddol ar ein heconomi gan fod nifer helaeth o swyddi wedi'u colli a llawer o fusnesau wedi mynd i'r wal.

Mae'r angen am gynlluniau diogelu wrth-gefn yn gryfach nag erioed, ac nid yw'n syndod gweld y galw cynyddol am gyflwyno cynllun Incwm Sylfaenol Cynhwysol (UBI). Byddai Incwm Sylfaenol Cynhwysol yn gweld pawb yn cael swm penodol gan y Llywodraeth i dalu costau sylfaenol, ni waeth a ydyn nhw'n gyfoethog neu'n dlawd, neu'n gweithio neu'n ddi-waith. Mae'n amlwg nad yw'r cynllun budd-daliadau cyfredol yn gweithio, gyda miliynau'n dioddef caledi gormodol oherwydd problemau cynhenid gyda'r system Credyd Cynhwysol, a byddai gweithredu cynllun budd-daliadau cyffredinol nid yn unig yn lleihau tlodi ac

anghydraddoldeb, ond hefyd yn darparu system fwy cadarn o sicrwydd ariannol i'r teuluoedd hynny sy'n profi caledi ariannol.

Ym mis Hydref eleni, cefnogodd mwyafrif o Aelodau'r Senedd - o nifer o bleidiau gwleidyddol - gynnig a gyflwynwyd gan Aelod Senedd Cymru, Jack Sargeant, a oedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal cyfnod prawf o'r Incwm Sylfaenol Cynhwysol yng Nghymru ac i lobïo Llywodraeth San Steffan am arian i roi hyn ar waith ledled Cymru. Yn ystod y ddadl, amlygodd Gweinidog Cyllid a Threfnydd Llywodraeth Cymru y gallai cyflwyno cynllun Incwm Sylfaenol Cyfunol yn seiliedig ar y cyflog byw ledled Cymru gostio oddeutu £35 biliwn y flwyddyn - swm sydd ddwywaith maint cyllideb Llywodraeth Cymru. Mae'n amlwg y byddai angen cefnogaeth ariannol sylweddol gan Lywodraeth San Steffan ar gyfer unrhyw gynllun prawf o'r fath yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu parhau i weithio gyda Rhwydwaith Lab UBI Cymru i ddatblygu cynigion ar gyfer cynllun peilot yn y sir, ac mae'n penderfynu ymhellach ein bod yn gwahodd Rhwydwaith Lab UBI RhCT i gyfarfod o'r Cyngor Llawn yn y dyfodol i hysbysu'r Aelodau o gynnydd ei hymgyrch o ran hyrwyddo UBI yn lleol ac yn genedlaethol.

Gan fod rhoi cynllun prawf ar waith y tu allan i gwmpas pwerau statudol yr Awdurdod Lleol, mae'r Cyngor yma felly'n penderfynu y bydd Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru ac Arweinydd pob plaid arall yn y Senedd i fynegi diddordeb y Cyngor yma mewn ffurfio rhan o unrhyw gynllun prawf a gaiff ei sefydlu o ran Incwm Sylfaenol Cynhwysol.

Gan gydnabod mai Llywodraeth y DU sydd â'r prif gyfrifoldeb am gyllid cyffredinol Incwm Sylfaenol Cynhwysol, mae'r Cyngor yma hefyd yn yn penderfynu anfon copi o'r cynnig yma at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, Canghellor y Trysorlys ac at Arweinwyr yr holl Bleidiau a gynrychiolir yn Senedd y DU.

Yn dilyn trafodaeth ar y mater yma ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor 12.7 cynigiodd cynigydd y cynnig gwreiddiol newid i'r cynnig diwygiedig, i gynnwys bod Arweinydd y Cyngor hefyd yn ysgrifennu at “y Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth y DU ”.

Dyma'r Cynnig wedi'i ddiwygio:

> Mae effeithiau anghydraddoldeb a thlodi ar gyfleoedd bywyd yn amlochrog ac mae tystiolaeth amlwg o hyn, gydag effaith y pandemig byd-eang nid yn unig yn datgelu'r caledi ariannol y mae teuluoedd ledled y wlad a thu hwnt yn ei wynebu, ond hefyd yn rhoi rhagor o straen sylweddol ar ein heconomi gan fod nifer helaeth o swyddi wedi'u colli a llawer o fusnesau wedi mynd i'r wal.
>
> Mae'r angen am gynlluniau diogelu wrth-gefn yn gryfach nag erioed, ac nid yw'n syndod gweld y galw cynyddol am gyflwyno cynllun Incwm Sylfaenol Cynhwysol (UBI). Byddai UBI yn golygu bod pawb yn cael swm penodol gan y Llywodraeth i dalu costau sylfaenol, ni waeth a ydyn nhw'n gyfoethog neu'n dlawd, yn gweithio neu'n ddi-waith. Mae'n amlwg nad yw'r cynllun budd-daliadau cyfredol yn gweithio, gyda miliynau'n dioddef caledi gormodol oherwydd problemau cynhenid gyda'r system Credyd Cynhwysol, a byddai gweithredu cynllun budd-daliadau cyffredinol nid yn unig yn lleihau tlodi ac anghydraddoldeb, ond hefyd yn darparu system fwy cadarn o sicrwydd

ariannol i'r teuluoedd hynny sy'n profi caledi ariannol.

Mae gwaith Rhwydwaith Lab UBI o ran llunio cynigion ar gyfer cyfnodau prawf wedi bod yn allweddol o ran hyrwyddo'r agenda yma ac, ym mis Hydref eleni, cefnogodd mwyafrif o Aelodau'r Senedd - o nifer o bleidiau gwleidyddol - Gynnig a gyflwynwyd gan Aelod Senedd Cymru, Jack Sargeant, a oedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal cyfnod prawf o'r UBI yng Nghymru ac i lobïo Llywodraeth San Steffan am arian i roi hyn ar waith ledled Cymru. Yn ystod y ddadl, amlygodd Gweinidog Cyllid a Threfnydd Llywodraeth Cymru y gallai cyflwyno cynllun Incwm Sylfaenol Cyfunol yn seiliedig ar y cyflog byw ledled Cymru gostio oddeutu £35 biliwn y flwyddyn - swm sydd ddwywaith maint cyllideb Llywodraeth Cymru. Mae'n amlwg y byddai angen cefnogaeth ariannol sylweddol gan Lywodraeth San Steffan ar gyfer unrhyw gynllun prawf o'r fath yn y dyfodol.

Gan fod rhoi cynllun prawf ar waith y tu allan i gwmpas pwerau statudol yr Awdurdod Lleol, mae'r Cyngor yma felly'n penderfynu y bydd Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth y DU i fynegi diddordeb y Cyngor hwn mewn ffurfio rhan o unrhyw gynllun prawf a gaiff ei sefydlu o ran Incwm Sylfaenol Cynhwysol.

Yng ngoleuni'r newid arfaethedig i'r Rhybudd o Gynnig sylweddol, penderfynodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman dynnu'r diwygiad a gyflwynwyd gan grŵp Plaid Cymru yn ôl.

Yn dilyn trafodaethau am y Rhybudd o Gynnig gwreiddiol, diwygiedig, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig yma unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor 12.7.

Nodwch:

- (**PENDERFYNWYD** parhau â'r cyfarfod yn unol â Rheol 8 - Dull Gweithredu'r Cyngor, er mwyn trafod gweddill yr eitemau ar yr agenda a pharhau â busnes y Cyngor.
- Ar yr adeg yma yn y cyfarfod, cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol E Stephens y buddiant personol canlynol ac ymataliodd rhag pleidleisio ar y mater: “Rydw i'n gweithio i'r Adran Gwaith a Phensiynau sy'n gweithredu Credyd Cynhwysol”
- Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J James yn dymuno i'w bleidlais gael ei chofnodi ei fod wedi pleidleisio yn erbyn y Rhybudd o Gynnig.)

***

C) Trafodwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M. Webber, G Hughes, L. M. Adams, G. Caple, D. R. Bevan, H Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J Brencher, A Calvert, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L De- Vet, J. Edwards, J Elliott, S. Evans, M Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries G. Holmes, G. Hopkins, G. Jones, R. Lewis, W Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S Pickering, S.

Powell, S. Powderhill, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, G Stacey, M Tegg, G Thomas, W Treeby, R K Turner, D. Williams, T. Williams, C. J. Willis a R. Yeo

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn parhau i sefyll yn erbyn pob math o hiliaeth a gwahaniaethu ac mae wedi ymrwymo i weithio gyda sefydliadau partner i frwydro yn erbyn credoau a gweithredoedd ffiaidd o'r fath.

Mae gwrthsemitiaeth yn un math o hiliaeth a gwahaniaethu sydd wedi dod yn fwyfwy amlwg yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y DU, yn Unol Daleithiau America, ac yn wir mewn llawer o wledydd eraill yn Ewrop. Yn 2019, nododd y Community Security Trust gynnydd o 82% mewn troseddau casineb ar-lein a chynnydd o 25% mewn achosion o drais gwrthsemitig.

Mae IHRA (International Holocaust Remembrance Alliance) yn diffinio gwrthsemitiaeth fel y ganlyn: "Antisemitism is a certain perception of Jews, which may be expressed as hatred toward Jews. Rhetorical and physical manifestations of antisemitism are directed toward Jewish or non-Jewish individuals and/or their property, toward Jewish community institutions and religious facilities."

Mae modd i enghreifftiau cyfoes o wrthsemitiaeth mewn bywyd cyhoeddus, y cyfryngau, ysgolion, y gweithle, ac mewn sefyllfaoedd crefyddol, gan ystyried y cyd-destun cyffredinol, gynnwys y canlynol (ond dydyn nhw ddim yn gyfyngedig i hyn):

Galw am ladd neu niweidio Iddewon yn enw ideoleg radical neu farn eithafol ar grefydd, helpu rhywun i wneud hynny neu gyfiawnhau hynny.

Gwneud honiadau celwyddog, dad-ddyneiddiol, enllibus, neu ystrydebol am Iddewon fel y cyfryw neu bŵer Iddewon ar y cyd - er enghraifft, annog y myth am gynllwyn Iddewig byd-eang neu ddweud mai Iddewon sy'n rheoli'r cyfryngau, yr economi, y llywodraeth neu sefydliadau cymdeithasol arall.

Cyhuddo Iddewon fel pobl o fod yn gyfrifol am gamwedd go iawn neu ddychmygol a gyflawnwyd gan berson neu grŵp Iddewig unigol, neu hyd yn oed am weithredoedd a gyflawnwyd gan bobl nad ydynt yn Iddewon.

Gwadu ffaith, cwmpas, mecanweithiau (e.e. siambrau nwy) neu hil-laddiad bwriadol pobl Iddewig yn nwylo'r Almaen Sosialaidd Genedlaethol a'i chefnogwyr a'i chynorthwywyr yn ystod yr Ail Ryfel Byd (yr Holocost).

Cyhuddo'r Iddewon fel pobl, neu Israel fel gwladwriaeth, o ddyfeisio neu orliwio'r Holocost.

Cyhuddo dinasyddion Iddewig o fod yn fwy ffyddlon i Israel, neu i flaenoriaethau honedig Iddewon ledled y byd, nag i fuddiannau eu cenhedloedd eu hunain.

Gwadu hawl pobl Iddewig i hunanbenderfyniad, e.e., trwy honni bod bodolaeth Gwladwriaeth Israel yn ymdrech hiliol.

Defnyddio safonau dwbl drwy fynnu ymddygiad nad yw'n ddisgwyliedig nac

yn cael ei mynnu gan unrhyw genedl ddemocrataidd arall.

Ddefnyddio symbolau a delweddau sy'n gysylltiedig â gwrthsemitiaeth glasurol (e.e. honiadau bod Iddewon wedi lladd Iesu neu enllib gwaed) i nodweddu Israel neu Israeliaid.

Llunio cymariaethau o bolisi cyfoes Israel â pholisi'r Natsïaid.

Dweud bod Iddewon ar y cyd yn gyfrifol am weithredoedd talaith Israel.

Mae gweithredoedd gwrthsemitig yn droseddau pan gânt eu diffinio felly gan y gyfraith (er enghraifft, gwadu'r Holocost neu ddosbarthu deunyddiau gwrthsemitig mewn rhai gwledydd).

Mae gweithredoedd troseddol yn wrthsemitig pan fydd targedau'r ymosodiadau, p'un a ydyn nhw'n bobl neu'n eiddo - fel adeiladau, ysgolion, addoldai a mynwentydd - yn cael eu dewis oherwydd eu bod nhw'n Iddewig, neu'n gysylltiedig ag Iddewon (neu os yw'r troseddwr o'r farn eu bod nhw'n Iddewig, neu'n gysylltiedig ag Iddewon).

Ystyr gwahaniaethu gwrthsemitig yw gwrthod cyfleoedd neu wasanaethau sydd ar gael i eraill i Iddewon, ac mae'n anghyfreithlon mewn llawer o wledydd.

Felly mae'r Cyngor yma'n penderfynu mabwysiadu'n ffurfiol y diffiniad uchod (IHRA) o wrthsemitiaeth a'i holl enghreifftiau yn llawn ac yn ddiamod, ac mae'n addo brwydro yn erbyn y math niweidiol yma o hiliaeth lle bynnag y mae'n amlygu ei hun, waeth ble, sut na phryd.

Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

**NODWCH:**

- Roedd holl Aelodau Plaid Cymru a oedd yn bresennol ar yr adeg yma yn y cyfarfod yn dymuno i'w henwau gael eu cofnodi o blaid y cynnig, sef y Cynghorwyr P Jarman, E Webster, H Fychan, G Davies, A Chapman, L Jones, E Stephens, S Rees Owen, M Weaver, J Williams, A Cox, D Grehan, E Griffiths a J Cullwick.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.05 pm**

**Cllr S Powderhill**
**Cadeirydd.**